

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 187(2)(b) ac (f) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2019 Rhif (Cy.)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Gwasanaethau
Rheoleiddiedig (Darparwyr
Gwasanaethau ac Unigolion
Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2019**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"). Mae Rheoliadau 2017 yn nodi'r gofynion rheoleiddiol sy'n gymwys i ddarparwyr gwasanaethau penodol sy'n cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Y rhain yw gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel, gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau 2017 i nodi'r mathau o wasanaethau rheoleiddiedig y mae'r Rheoliadau hynny yn gymwys iddynt. Mae rheoliad 4 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i rheoliad 2 o Rheoliadau 2017 sy'n ymdrin ag amgylchiadau pan yw person wedi ei esemptio o'r gofyniad i gofrestru fel darparwr gwasanaeth cartref gofal. Mae rhai o'r diwygiadau hyn yn addasiadau er mwyn rhwystro'r eithriadau yn rheoliad 2(1)(e), (f) ac (i) rhag peidio â bod yn gymwys os yw'r plant y darperir gofal a llety ar eu cyfer yn cynnwys plentyn sy'n anabl.

Mae'r diwygiad yn rheoliad 4(c) yn creu eithriad pellach i'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal o dan

amgylchiadau pan fo gofal a llety yn cael eu darparu i blant. Bydd yr eithriad newydd yn esemptio person sy'n darparu gofal a llety yn ei gartref ei hunan i un plentyn (neu i grŵp o frodyr a chwiorydd) am 28 o ddiwrnodau neu lai bob blwyddyn fel nad yw'n ofynnol iddo gofrestru.

Mae rheoliad 5 yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau 2017 i bennu nad yw gofal nyrsio a ddarperir gan nyrs gofrestredig yn dod o fewn cwmpas gweithgaredd gwasanaeth cymorth cartref. Mae'n creu eithriad ar wahân ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Lleol pan fo hyn yn gysylltiedig ag angen am ofal nyrsio.

Mae rheoliad 8 yn diwygio rheoliad 35 o Reoliadau 2017 i ohirio tan 1 Ebrill 2020 y gofyniad bod rhaid i reolwr gwasanaeth rheoleiddiedig fod wedi ei gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru yn achos rheolwyr asiantaethau a oedd wedi eu cofrestru fel asiantaethau nyrsys o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 cyn 2 Ebrill 2018 ond nad oeddent hefyd wedi eu cofrestru fel asiantaethau gofal cartref.

Mae rheoliadau 9 i 11 yn gwneud diwygiadau i Ran 13 o Reoliadau 2017 sy'n ymdrin â'r amgylchiadau pan fo gofynion ychwanegol ynghylch safon mangreoedd yn gymwys i wasanaethau newydd. Mae'r diwygiadau yn egluro sut y mae'r gofynion ychwanegol yn gymwys yn achos estyniadau a gaiff eu hadeiladu ar fangreoedd presennol gwasanaeth llety.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 187(2)(b) ac (f) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2019 Rhif (Cy.)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Gwasanaethau
Rheoleiddiedig (Darparwyr
Gwasanaethau ac Unigolion
Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2019**

Gwnaed ***

Yn dod i rym ***

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 2(3) a 27 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(1), ac ar ôl ymgynghori â'r personau hynny y maent yn meddwl eu bod yn briodol, ar ôl cyhoeddi datganiad ynghylch yr ymgynghoriad ac ar ôl gosod copi o'r datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 27(4) a (5), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 187(2)(b) ac (f) ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2019.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar XXXX 2019.

Diwygiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

2. Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017(1) wedi eu diwygio yn unol â'r rheoliadau a ganlyn.

Dehongli

3. Yn rheoliad 1(3), yn y lle priodol yn ôl trefn yr wyddor, mewnosoder y diffiniad a ganlyn—

“ystyr “gwasanaethau rheoleiddiedig” (“*regulated services*”) yw gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau llety diogel neu wasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd;”.

Eithrio rhag cwmpas gwasanaeth cartref gofal

4. Yn rheoliad 2—

(a) yn lle is-baragraff (1)(e) rhodder—

“(e) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r gofal a ddarperir yn gyfystyr â gwarchod plant o fewn ystyr adran 19(2), neu ofal dydd o fewn ystyr adran 19(3), o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(2) ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys—

(i) os oes, mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, 28 neu ragor o gyfnodau o 24 awr y darperir mwy na 15 awr o warchod plant neu ofal dydd ynddynt mewn perthynas ag unrhyw un plentyn; neu

(ii) os darperir y gofal yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer plant anabl;”
;

(b) yn is-baragraff (1)(f), yn lle “yw'r llety wedi ei ddarparu i blentyn anabl” rhodder “darperir

(1) O.S. 2017/1264 (Cy. 295).

(2) 2010 mccc 1.

gofal yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer plant anabl”;

(c) yn is-baragraff (1)(i)—

(i) yn y geiriau cyflwyno hepgorer “oherwydd eu hygwyfedd neu eu hangen”;

(ii) yn is-baragraff (i) o'r rhan o'r cymal sy'n nodi pryd nad yw'r eithriad yn gymwys, yn lle “pan fo'r llety wedi ei ddarparu i blentyn anabl” rhodder “pan fo gofal yn cael ei ddarparu yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer plant anabl”;

(d) ar ddiwedd is-baragraff (1)(i), yn lle “.” rhodder “;”;

(e) ar ôl is-baragraff (1)(i) mewnosoder yr is-baragraff a ganlyn—

“(j) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, i un plentyn neu i grŵp o frodyr a chwiorydd gan berson yng nghartref y person hwnnw ei hunan a phan na fo'r gofal a'r llety yn cael eu darparu gan y person hwnnw am fwy nag 28 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis.”;

(f) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

“(4) Yn is-baragraff (1)(j) o'r rheoliad hwn, mae “grŵp o frodyr a chwiorydd” yn cynnwys brodyr a chwiorydd a hanner brodyr a hanner chwiorydd.”

Eithriadau rhag cwmpas gwasanaeth cymorth cartref

5. Yn rheoliad 3(1)—

(a) yn is-baragraff (g), yn lle “.” rhodder “;”;

(b) ar ôl is-baragraff (g) mewnosoder—

“(h) y ddarpariaeth o ofal nyrsio gan nyrs gofrestredig;

(i) y ddarpariaeth o ofal a chymorth gan Fwrdd Iechyd Lleol i ddiwallu anghenion sy'n gysylltiedig ag anghenion unigolion am ofal nyrsio.”

Mân ddiwygiad i reoliad 12

6. Yn rheoliad 12(1), yn y cromfachau ar ôl “Derbyniadau a chychwyn y gwasanaeth”, yn lle “Rhan 5” rhodder “Rhan 4”.

Mân ddiwygiad i reoliad 34

7. Yn y testun Saesneg yn rheoliad 34(5), hepgorer y gair “as” yn yr ail le y mae'n ymddangos.

Diwygiad i'r gofyniad o ran addasrwydd rheolwyr gwasanaethau cymorth cartref o dan amgylchiadau penodol

8. Yn rheoliad 35—

- (a) yn is-baragraff (2)(e), ar y dechrau, mewnosoder “yn ddarostyngedig i baragraff (10) o'r rheoliad hwn,”;
- (b) ar ôl paragraff (9) mewnosoder—

“(10) Tan 1 Ebrill 2020, nid yw'r gofyniad o dan baragraff (2)(e) i reolwr fod wedi ei gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru yn gymwys i reolwr sydd wedi ei benodi i reoli ymgymeriad—

 - (a) y mae person wedi ei gofrestru, neu wedi gwneud cais i gofrestru, mewn cysylltiad ag ef, fel darparwr gwasanaeth cymorth cartref; a
 - (b) yr oedd person wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef i gynnal asiantaeth nyrsys o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(1) yn union cyn 2 Ebrill 2018 ond nad oedd hefyd wedi ei gofrestru i gynnal asiantaeth gofal cartref.”

Diwygio rheoliad 49 – Cymhwyso Rhan 13

9. Yn rheoliad 49—

- (a) ym mharagraff (2), yn y testun sy'n disgrifio mangre Categori B, yn lle'r geiriau o “estyniad” i “sy'n” rhodder “adeilad neu adeiladau yr ychwanegir estyniad ato neu atynt ac mae'r estyniad yn”;
- (b) ym mharagraff (3), ar ôl “54” mewnosoder “ond yn achos mangre Categori B, nid yw'r gofynion ond yn gymwys i'r rhan o'r fangre sy'n cynnwys yr estyniad (neu yn achos rheoliad 53, i unrhyw rannau o'r tiroedd allanol sydd wedi eu datblygu ar y cyd â'r estyniad)”.

Diwygio rheoliad 52 – gofynion ychwanegol – lle cymunedol

10. Yn rheoliad 52—

- (a) ar y dechrau, yn lle “Rhaid” rhodder “(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid”;
- (b) ar y diwedd, ychwaneger y paragraff a ganlyn—

(1) 2000 p. 14.

“(2) Ar gyfer mangre Categori B, mae’r rheoliad hwn yn gymwys fel bod rhaid i’r gofyniad o ran lle gael ei fodloni mewn perthynas ag unrhyw ystafelloedd ychwanegol i unigolion.”

Diwygio rheoliad 53 – gofynion ychwanegol – lle yn yr awyr agored

11. Yn rheoliad 53, ar ôl “allanol”, mewnosoder “(neu, yn achos mangre Categori B, unrhyw ran o’r tiroedd allanol a ddatblygir ar y cyd ag adeiladu’r estyniad)”.

Mân ddiwygiad i reoliad 67

12. Yn rheoliad 67(4), yn lle “rheoliad 34(2)” rhodder “rheoliad 35(2)”.

Mân ddiwygiad i reoliad 73

13. Yn rheoliad 73(2), yn lle “unrhyw wasanaethau rheoleiddiedig eraill” rhodder “gwasanaeth cymorth cartref”.

Mân ddiwygiad

14. Yn rheoliad 85(4), yn y rhestr o reoliadau, yn lle “33(1)” rhodder “33(2)”.

Diwygiadau i Atodlen 2

15. Ym mharagraff 5 o Atodlen 2—

- (a) yn is-baragraff (a), yn lle “, anaf, neu salwch” rhodder “neu anaf”;
- (b) yn is-baragraff (f), yn lle “wlserau” rhodder “niwed”.

Diwygiadau i Atodlen 3

16. Yn Atodlen 3—

- (a) ym mharagraff 16, yn lle’r geiriau o “wlser pwyso categori 3 neu 4” i’r diwedd rhodder “niwed pwyso categori 3 neu 4 neu niwed pwyso nad oes modd ei osod ar unrhyw gam”;
- (b) ym mharagraff 17, yn lle “, anaf neu salwch” rhodder “neu anaf”;
- (c) ym mharagraff 33, yn lle “, anaf neu salwch” rhodder “neu anaf”;
- (d) ym mharagraff 34, yn lle’r geiriau o “wlser pwyso categori 3 neu 4” i’r diwedd rhodder “niwed pwyso categori 3 neu 4 neu niwed pwyso nad oes modd ei osod ar unrhyw gam.”

Llofnodwyd

Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad